*(Rôl Labordy'r Gwyddorau Bywyd)*

# Gill Grissom

Ffôn symudol: xxxxxxxxx E-bost: xxxxxxxxxxxx LinkedIn: xxxxxxxxxxxx

## ADDYSG

BSc (Anrhydedd) Ffarmacoleg Feddygol, *Prifysgol Caerdydd (2.1)* 2014 – 2018

Modiwlau perthnasol:

- **Y Gell Ddynamig:** Deall y berthynas rhwng strwythur a swyddogaeth celloedd a sut mae nodweddion celloedd yn hwyluso eu gweithgareddau metabolig.
- **Cemeg Fiolegol:** Datblygu dealltwriaeth o'r macromoleciwlau strwythurol, gwybodaeth a chatalytig allweddol a geir mewn organebau byw, gan gynnwys proteinau, asidau niwclëig (DNA ac RNA), lipidau a charbohydradau, ac yn egluro eu harwyddocâd swyddogaethol.
- **Strwythur a Swyddogaeth Organebau Byw:** Datblygu dealltwriaeth o swyddogaeth meinwe, cydbwysedd asid bas, secretiad, hormonau, ac endocrinoleg.

**Safon Uwch**, Chweched dosbarth Shelton, Dyfnaint
2012 – 2014
Bioleg (A), Hanes (A), Ffiseg (B), Safon UG Mathemateg (C)

**TGAU**, Y*sgol St George*, Dyfnaint
2010 – 2012
9 A– B gan gynnwys Bioleg, Ffiseg, Cemeg, Saesneg, Mathemateg,

## SGILIAU PERTHNASOL

### Sgiliau a Thechnegau Labordy

Enillwyd o brosiectau ymchwil a modiwlau gradd:

- Medrus wrth weithredu gweithdrefnau labordy amrywiol yn fanwl gywir ac yn effeithlon wrth gadw at Weithdrefnau Gweithredu Safonol, gan gynnwys paratoi swp ar gyfer echdynnu DNA, cymhwyso technegau PCR, a chreu samplau microbaidd.
- Yn gymwys i gynnal a dogfennu profion biocemegol ar gelloedd a meinweoedd yn ddiogel ac yn effeithiol.
- Medrus wrth adnabod a dehongli lefelau llygryddion mewn samplau organig yn gywir.

### Cyfathrebu

- Gallu mynegi canlyniadau a chanfyddiadau gwyddonol yn glir mewn fformatau ysgrifenedig ac ar lafar i gynulleidfaoedd anwyddonol.
- Meddu ar sgiliau llafar a chyflwyno cryf wedi'u hogi drwy gydweithio â chymheiriaid a chyflwyniadau ffurfiol mewn lleoliadau proffesiynol.

### Y gallu i weithio'n rhan o dîm

- Tair blynedd o brofiad cydweithredol yn gweithio ar arbrofion labordy a phrosiectau ymchwil o fewn timau bach.
- Gallu addasu i ddeinameg tîm ac yn fedrus wrth gynnig cefnogaeth i aelodau tîm yn ôl yr angen i feithrin awyrgylch gwaith cadarnhaol a chynhyrchiol.

### Llythrennedd Cyfrifiadurol, rhifedd ac ystadegau

- Medrus wrth ddefnyddio offer biowybodeg i ddadansoddi setiau data mawr megis dilyniannau DNA a phrotein.
- Medrus iawn wrth lywio cronfeydd data ar-lein gan gynnwys Vortex, Excel, a PubMed.
- Wedi cwblhau gwaith cwrs mewn ystadegau a thraethawd hir oedd yn canolbwyntio ar ddadansoddi data, gan ddefnyddio meddalwedd ystadegol fel R ac SPSS.
- Yn gymwys ac yn hyderus wrth gymhwyso fformiwlâu rhifiadol ac ystadegol i ddatblygu datrysiadau a dadleuon yn effeithiol.

*(Rôl Labordy'r Gwyddorau Bywyd)*

# PROFIAD PERTHNASOL

**Cynorthwyydd Ymchwil**, Adeilad Canser a Geneteg, Prifysgol Caerdydd Mehefin 2017 - Ionawr 2018

- Cynnal arbrofion labordy canolog ochr yn ochr â thîm ymchwil ymroddedig, gan hwyluso gwaith adnabod amrywiadau genetig mewn unigolion â polyposis tyfiannol y colon a'r rhefr anesboniadwy. Roedd hyn yn cynnwys optimeiddio protocol i fynd i'r afael â heriau ymchwil, gan alluogi'r gwaith caffael setiau data helaeth o samplau cleifion y GIG, gan gadw'n gaeth at gytundebau cyfrinachedd a'r Ddeddf Meinweoedd Dynol.
- Cyfleu canlyniadau yn effeithiol i oruchwylwyr yn ystod cyfarfodydd wythnosol, a chyfrannodd y data a gynhyrchwyd yn sylweddol at bapur ymchwil. Arweiniodd canlyniadau llwyddiannus prosiect yr haf at ymestyn fy nghytundeb o fewn yr adran.

**Cynorthwyydd Ymchwil**, Prifysgol Caerdydd Medi 2016 - Mehefin 2017

- Gwneud prosiect blwyddyn hyfforddiant proffesiynol yn ymchwilio i fodelu, diagnosis ac ymyrraeth therapiwtig anhwylderau niwroddirywiol.
- Gweithredu o fewn labordy lipidomig, yn ymwneud â pharatoi meinwe anifeiliaid a chynorthwyo gyda dadansoddiad LC-MS a GC-MS, gan ennill profiad mewn technegau in vivo ac in vitro.
- Ymgymryd â gwaith contract ychwanegol ar gyfer cwmni fferyllol allanol o dan ganllawiau arferion da yn y labordy (GLP).
- Wedi derbyn canmoliaeth am gydweithio rhyngddisgyblaethol effeithiol, cynllun ymchwil medrus, a chyflwyniad poster effeithiol.

**Prosiect Ymchwil**, Prifysgol Caerdydd Mehefin - Awst 2015

*'Ymchwilio i effaith therapi cyffuriau treialon ar broteinwria sy'n gysylltiedig â gorbwysedd'*

- Cyflawni techneg Bradford Assay gan ddefnyddio dau doddiant safonol, Albwmin Serwm Buchol ac Ofalbwmin, a thri sampl wrin i fesur sut yr effeithiodd y cyffur ar lefelau protein y dioddefwr proteinwria.
- Cyflawni mesuriadau sbectroffotometrig ar donfeddi priodol, gan ddefnyddio sbectroffotomedr UV-Vis i fesur lefelau protein mewn samplau wrin ar ôl y driniaeth gyda'r cyffur treial.
- Dadansoddi data amsugnedd gan ddefnyddio meddalwedd priodol neu gyfrifiadau â llaw, gan gymhwyso crynodiadau protein ac asesu effaith y cyffur treial ar ddifrifoldeb y proteinwria.
- Cynnal protocolau hylendid a diogelwch labordy trwy gydol gweithdrefn y prawf, gan leihau risgiau halogiad a sicrhau amgylchedd gwaith diogel i mi a chydweithwyr.
- Dogfennu gweithdrefnau arbrofol, arsylwadau, a chanlyniadau mewn llyfr nodiadau labordy cynhwysfawr, sy'n hwyluso dadansoddi a dehongli data ar gyfer camau ymchwil dilynol.

## PROFIADAU ERAILL

**Stiward digwyddiadau a Chynorthwyydd Gwasanaethau Cwsmeriaid,** *Godwin Estate*

Mehefin 2012 - Awst 2013

- Cynnig gwasanaeth rhagorol i gwsmeriaid yn gyson ym mhob rôl yn ystod yr haf.
- Cynorthwyo gydag ystod eang o ymholiadau a chefnogi tîm mawr prysur.
- Bod yn ddigynnwrf ac yn broffesiynol wrth ymdrin â sefyllfaoedd heriol yn ystod cyfnodau prysur.

**Wythnos o Brofiad Gwaith,** *Radiotherapi, adrannau therapi galwedigaethol ysbyty Plymouth,* Dyfnaint

Awst 2012

- Arsylwi ymgynghoriadau cleifion a thriniaethau clinigol amrywiol yn ystod lleoliad am wythnos.
- Cynnig cymorth gweinyddol effeithiol i dîm amlddisgyblaethol.

*(Rôl Labordy'r Gwyddorau Bywyd)*

## CANOLWYR

Enw Llawn (teitl), Prifysgol Caerdydd, e-bost

Enw Llawn (teitl), Prifysgol Caerdydd, e-bost